Llywodraeth Cymru

# **Galwad am Dystiolaeth:**
Rhwydo o’r lan yng Nghymru

## Crynodeb o'r ymatebion

**Dyddiad:** 01 Medi 2025

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| • Cefndir | 3 |
| • Hyd a Dosbarthiad yr Alwad am Dystiolaeth | 4 |
| • Ymatebion | 4 |
| • Cwestiynau'r Alwad am Dystiolaeth | 5 |
| • Y Camau Nesaf | 14 |

**Y Cefndir**

Cyhoeddwyd Cynllun Rheoli Pysgodfeydd (FMP) Draenogiaid Môr ar gyfer dyfroedd Cymru a Lloegr ym mis Rhagfyr 2023. Datblygwyd y cynllun ar y cyd â Llywodraeth y DU ac mae'n cydymffurfio â gofynion Deddf Pysgodfeydd 2020 a Chyd-ddatganiad Pysgodfeydd (JFS) 2022.

Nod Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Draenogiaid Môr yw sicrhau bod stociau o ddraenogiaid môr yn cael eu rheoli mewn modd effeithiol yn nyfroedd Cymru a Lloegr dros gyfnod o chwe blynedd. Nododd y Cynllun naw nod, ac mae gan bob un ohonynt gamau cysylltiedig sy'n canolbwyntio ar dystiolaeth ddomestig a blaenoriaethau rheoli.

Sefydlwyd Grŵp Cynghori Cymru ar Ddraenogiaid Môr (WSBAG) ym mis Ionawr 2024, i roi cyngor i swyddogion a'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ar flaenoriaethu a gweithredu camau gweithredu Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd yng Nghymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys amrediad amrywiol o randdeiliaid sydd â diddordeb mewn pysgodfeydd draenogiaid môr.

Mae Nod 8.1 o'r Cynllun yn cynnwys ymrwymiad i *'adolygu'r arfer o rwydo o'r lan a rhwydo yn nŵr bas y glannau i weld a oes angen mesurau gwarchod rhanbarthol neu genedlaethol ychwanegol i osgoi sgil-ddal pysgod mudol'*. Yn rhan o'r ymrwymiad hwn, bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Grŵp Cynghori Cymru ar Ddraenogiaid Môr i adolygu'r arfer presennol o rwydo o'r lan.

Adolygiad o'r arfer o rwydo o'r lan yng Nghymru | LLYW.CYMRU

Diben yr Adolygiad o Rwydo o'r Lan oedd agor trafodaethau ynghylch a oes angen amddiffyniadau rhanbarthol neu genedlaethol ychwanegol i atal pysgod mudol rhag cael eu sgil-ddal gan rwydi a ddefnyddir o'r lan yng Nghymru. Roedd y papur yn cynnwys gwybodaeth gefndirol ynghylch pam mae angen adolygiad, disgrifiad o rwydo o'r lan a hanes byr y gweithgaredd hwn a sut y mae wedi cael ei reoleiddio yng Nghymru.

Tynnodd yr adolygiad sylw at rai gwahaniaethau rhwng rheoliadau Gogledd a De Cymru ac at y ffaith nad yw'r ddeddfwriaeth yn caniatáu rheolaeth addasol. Nododd hefyd fod y data sydd ar gael ar ddalfeydd yn gyfyngedig, gan gynnwys ar sgil-ddalfeydd, a bod angen yr wybodaeth hon i arwain y gwaith o reoli rhwydo o'r lan a'r bysgodfa draenogiaid môr yng Nghymru.

Cytunodd Grŵp Cynghori Cymru ar Ddraenogiaid Môr fod yr adolygiad yn amlygu'r angen i gasglu rhagor o wybodaeth a data am weithgareddau rhwydo o'r lan cyn ystyried y camau nesaf. Awgrymodd y Grŵp Cynghori y byddai galwad am dystiolaeth a system recordio dalfeydd wirfoddol yn ffyrdd priodol o gasglu gwybodaeth o'r fath.

O ganlyniad, datblygodd Llywodraeth Cymru alwad am dystiolaeth i ofyn am wybodaeth gan y rhai sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â rhwydo o'r lan, er mwyn deall yn well y niferoedd sy'n rhwydo o'r lan, pryd a ble maent yn gwneud hynny a pha mor aml, y rhywogaethau sy'n cael eu dal a faint sy'n cael eu dal – boed hynny o fwriad neu mewn sgil-ddalfeydd.

Er i'r alwad am dystiolaeth gael ei chynllunio i gasglu gwybodaeth sydd gan bysgotwyr eisoes, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried rhinwedd cyflwyno system cofnodi dalfeydd wirfoddol er mwyn casglu data am ddalfeydd yn y dyfodol. Yn gysylltiedig â hyn, er mwyn gwella ein dealltwriaeth, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried comisiynu astudiaethau gwyddonol ar sgil-ddalfeydd a'r hyn sy'n cael ei daflu. Bydd y rhai sy'n ymateb i'r alwad am dystiolaeth yn cael cyfle i gyfrannu at yr astudiaethau hyn os ydynt am wneud hynny.

Nid ymgynghoriad ynghylch cynigion wedi eu datblygu oedd yr alwad am dystiolaeth, ond cais am fewnbwn i lywio'r gwaith o ddatblygu polisi yn y dyfodol. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio i ystyried a oes angen mesurau ychwanegol i wella'r ffordd mae rhwydo o'r lan yn cael ei reoleiddio yng Nghymru. Bydd unrhyw gynigion dilynol i newid y rheoliadau presennol yn seiliedig ar yr wybodaeth hon yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, ac unrhyw asesiadau statudol sydd eu hangen, cyn gwneud unrhyw newidiadau i ddulliau rheoli.

## Hyd a Dosbarthiad yr Alwad am Dystiolaeth

Dechreuodd yr Alwad am Dystiolaeth ar 20 Ionawr 2025 a daeth i ben ar 28 Chwefror 2025.

Cyhoeddwyd yr Alwad am Dystiolaeth ar wefan LLYW.CYMRU a chyfrif cyfryngau cymdeithasol 'X' Llywodraeth Cymru. Ar yr un pryd rhannwyd yr Alwad am Dystiolaeth â rhanddeiliaid hysbys drwy e-bost, gan gynnwys holl aelodau Grŵp Cynghori Cymru ar Ddraenogiaid Môr (WSBAG), Cymdeithas Pysgotwyr Cymru (WFA) a'r Ymddiriedolaeth Bysgota. Hefyd rhannodd Swyddogion Gorfodi Morol Llywodraeth Cymru y neges â'r gymuned bysgota yn berson.

Roedd ymatebwyr yn gallu ymateb drwy lenwi ffurflen ar-lein, drwy e-bost, ar y ffôn neu'n ysgrifenedig drwy'r post.

## Ymatebion

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth. Bydd pob ymateb yn cael ei ystyried. Derbyniwyd cyfanswm o 18 o ymatebion gan amrywiaeth o unigolion a sefydliadau sydd â diddordeb mewn rhwydo o'r lan yng Nghymru. O'r rhain, derbyniwyd 13 drwy wefan Llywodraeth Cymru, pedwar drwy e-bost ac un yn ysgrifenedig drwy'r post. O'r 13 ymateb ar-lein roedd dau'n gopïau dyblyg, a dim ond 11 o'r 27 cwestiwn yr atebwyd gan un.

Cafwyd ymateb drwy e-bost gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) (**Atodiad 1**) gyda gwybodaeth am rywogaethau a warchodir sydd mewn perygl o gael eu sgil-ddal, gan gynnwys eu dosbarthiad, eu niferoedd a'r cyfnodau pan fyddant o dan y risg fwyaf. Nid oedd yr ymateb yn dilyn y fformat a nodwyd yn yr Alwad am Dystiolaeth ac ni ellid ei ddadansoddi ochr yn ochr â'r cyflwyniadau eraill. Fodd bynnag, bydd yr wybodaeth a dderbyniwyd yn cael ei hystyried gyda'r ymatebion eraill.


Mae crynodeb o'r 14 ymateb llawn isod.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**


Roedd yr Alwad am Dystiolaeth yn cynnwys 27 o gwestiynau unigol. Rhoddodd pob un o'r 14 o ymatebwyr a ddarparodd ymateb llawn ei enw (C1), ei gyfeiriad (C2), ei god post (C3) a'i gyfeiriad e-bost (C4). Roedd pob un ohonynt yn byw yng Nghymru ac yn ymateb fel unigolyn nid fel sefydliad (C5).

Rhoddir crynodeb o'r ymatebion isod.

| **Cwestiwn 6** | Nodwch a ydych yn Unig Fasnachwr, Partner neu Gwmni Cyfyngedig. |
|---|---|
| **12 (86%)** | Yr ymatebwr yn rhwydo o'r lan yn fasnachol ac yn **unig fasnachwr**. |
| **2 (14%)** | Yr ymatebwr yn rhwydo o'r lan yn fasnachol ac yn **gwmni cyfyngedig**. |
| **0 (0%)** | Yr ymatebwr yn **bartner**. |





| **Cwestiwn 7** | A oes gennych gwch pysgota masnachol? Ydw/Nac ydw. |
|---|---|
| **10 (71%)** | Yr ymatebwr yn dweud **ei fod yn** berchen ar gwch pysgota masnachol. |
| **4 (29%)** | Yr ymatebwr yn dweud **nad yw'n** berchen ar gwch pysgota masnachol. |





| Cwestiwn 8 | A ydych yn rhwydo o'r lan at ddibenion hamdden? Ydw/Nac ydw. |
|---|---|

**2 (14%)** Yr ymatebwr yn dweud **ei fod yn** rhwydo o'r lan at ddibenion hamdden yng Nghymru.
**11 (79%)** Yr ymatebwyr yn dweud **nad yw'n** rhwydo o'r lan at ddibenion hamdden yng Nghymru.
**1 (7%)** Yr ymatebwr **heb roi ymateb**




| Cwestiwn 9 | A ydych wedi gweld rhwydo o'r lan (atebwch gwestiynau 24 a 25)? Ydw/Nac ydw. |
|---|---|

**3 (21%)** Yr ymatebwr yn dweud **ei fod wedi** gweld rhwydo o'r lan yng Nghymru.
**10 (72%)** Yr ymatebwr yn dweud **nad yw wedi** gweld rhwydo o'r lan yng Nghymru.
**1 (7%)** Yr ymatebwr **heb roi ymateb**




| **Cwestiwn 10** | Yn ystod pa fisoedd y buoch yn pysgota â rhwyd o'r lan yn y cyfnod 2021–2024? |
|---|---|

Derbyniwyd yr ymatebion canlynol:

**6 (43%)** **Ionawr**
**5 (36%)** **Chwefror**
**6 (43%)** **Mawrth**
**13 (93%)** **Ebrill**
**13 (93%)** **Mai**
**12 (86%)** **Mehefin**
**12 (86%)** **Gorffennaf**
**14 (100%)** **Awst**
**14 (100%)** **Medi**
**14 (100%)** **Hydref**
**14 (100%)** **Tachwedd**
**11 (79%)** **Rhagfyr**

| **Cwestiwn 11** | Ble buoch yn pysgota â rhwyd o'r lan bob blwyddyn yn y cyfnod 2021–2024 (byddwch mor benodol â phosibl)? |
|---|---|

Derbyniwyd yr ymatebion canlynol:

**9 (64%)** **Cefn Sidan**
**4 (28%)** **Pen-bre**
**3 (21%)** **Traethau De Cymru** (*gan gynnwys Cefn Sidan, Llanelli a Phen-bre)*
**2 (14%)** **Abersoch**
**1 (7%)** **Llanelli**
**1 (7%)** **Pwllheli**
**1 (7%)** **Nefyn**
**1 (7%)** **Cricieth**
**1 (7%)** **Hells Mouth**
**1 (7%)** **Penllech**
**1 (7%)** **Tywyn**
**1 (7%)** **Porthor**
**1 (7%** **Llanbedrog**

| Cwestiwn 12 | Sawl diwrnod y buoch yn pysgota â rhwyd o’r lan bob blwyddyn yn y cyfnod 2021–2024? |
|---|---|

Derbyniwyd yr ymatebion canlynol:

**2 (14%) Dim cofnodion wedi'u cadw**
**2 (14%) Y rhan fwyaf o'r amser pan fydd llanw pan allaf fynd allan ar y cwch pysgota**
**1 (7%) 10 llanw'r mis**
**1 (7%) Yn dibynnu ar y tywydd a gweithgareddau ar y traeth**

O'r ymatebion sy'n weddill, y ffigurau manwl mwyaf a dderbyniwyd gan unigolyn oedd:

**2021:**
27 diwrnod y mis

**2022:**
28 diwrnod y mis

**2023:**
31 diwrnod y mis

**2024:**
45 diwrnod y mis

| Cwestiwn 13 | Beth oedd eich rhywogaeth darged wrth bysgota â rhwyd o’r lan yn y cyfnod 2021–2024? |
|---|---|

Derbyniwyd yr ymatebion canlynol:

**13 (93%) Hyrddod**
**11 (79%) Lledod Chwithig**
**11 (79%) Lledod Mwd**
**7 (50%) Torbytiaid**
**7 (50%) Morgwn Llyfnion**
**4 (28%) Mecryll**
**3 (21%) Morgwn**
**2 (14%) Gwyniaid Môr**
**1 (7%) Penfreision**
**1 (7%) Draenogiaid Môr**
**1 (7%) Lledod Coch**

| Cwestiwn 14 | Faint o ddraenogiaid môr y gwnaethoch gymryd wrth bysgota â rhwyd o’r lan bob blwyddyn yn y cyfnod 2021–2024 (cilogramau)? |
|---|---|

Derbyniwyd yr ymatebion canlynol:

**2 (14%) Dim cofnodion wedi'u cadw**
**1 (7%) Dim sgil-ddalfeydd**
**1 (7%) Yn unol â'r lefelau a ganiateir**

Roedd y **10** ymateb a oedd yn weddill yn nodi mai'r gwerthoedd uchaf ac isaf ar gyfer pob blwyddyn yn y cyfnod 2021–2024 oedd:

| |
|---|
| **2021**<br>Y sgil-ddalfa unigol uchaf o ddraenogiaid môr a ddatganwyd oedd: 500kg<br>Y sgil-ddalfa unigol isaf o ddraenogiaid môr a ddatganwyd oedd: 50kg<br><br>**2022**<br>Y sgil-ddalfa unigol uchaf o ddraenogiaid môr a ddatganwyd oedd: 500kg<br>Y sgil-ddalfa unigol isaf o ddraenogiaid môr a ddatganwyd oedd: 10kg<br><br>**2023**<br>Y sgil-ddalfa unigol uchaf o ddraenogiaid môr a ddatganwyd oedd: 500kg<br>Y sgil-ddalfa unigol isaf o ddraenogiaid môr a ddatganwyd oedd: 20kg<br><br>**2024**<br>Y sgil-ddalfa unigol uchaf o ddraenogiaid môr a ddatganwyd oedd: 500kg<br>Y sgil-ddalfa unigol isaf o ddraenogiaid môr a ddatganwyd oedd: 35kg |

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn 15** | Pa rywogaethau eraill y gwnaethoch eu dal wrth bysgota â rhwyd o'r lan yn y cyfnod 2021–2024 gan gynnwys pysgod, mamaliaid ac adar? |

Derbyniwyd yr ymatebion canlynol:

**5 (35%) Dim ymateb**
**4 (28%) Morgwn**
**3 (21%) Mecryll**
**2 (14%) Morgwn Llyfnion**
**2 (14%) Lledod Tywod**
**2 (14%) Morgathod**
**2 (14%) Hyrddod**
**2 (14%) Morloi**
**1 (7%) Morgwn Brych**
**1 (7%) Torbytiaid**
**1 (7%) Lledod Mwd**
**1 (7%) Lledod Coch**
**1 (7%) Merfogiaid Du**
**1 (7%) Lledod Chwithig**
**1 (7%) Crancod Heglog**
**1 (7%) Adar Môr**
**1 (7%) Dyfrgwn**
**1 (7%) Cŵn Gleision**
**1 (7%) Dim byd**

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn 16** | Beth oedd hyd y rhwydi (metrau) a ddefnyddiwyd? |

Derbyniwyd yr ymatebion canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| **11** | **(79%)** | **200m** |
| **1** | **(7%)** | **85–270m** |
| **1** | **(7%)** | **50 llathen (45m)** |
| **1** | **(7%)** | **50m** |

| **Cwestiwn 17** | Beth oedd maint y rhwyll (milimetrau) a ddefnyddiwyd? |
|---|---|

Derbyniwyd yr ymatebion canlynol:

**5 (35%) 4.5 modfedd (114mm)**
**4 (28%) 100mm**
**2 (14%) 108mm**
**1 (7%) 115–125mm**
**1 (7%) 4 modfedd (102mm)**
**1 (7%) 4.2 modfedd (107mm)**

| **Cwestiwn 18** | Faint o rwydi gafodd eu defnyddio / eu gosod ar unrhyw adeg? |
|---|---|

Derbyniwyd yr ymatebion canlynol:

**12 (86%) 1**
**1 (7%) 3**
**1 (7%)** Uchafswm o **6**


| **Cwestiwn 19** | Sut y gwnaethoch ddefnyddio’r rhwydi o’r lan (dull/trefn)? |
|---|---|

Derbyniwyd yr ymatebion canlynol:

**5 (35%) Codi a chwympo**
**4 (28%) Wedi'u hangori**
**4 (28%) Rhwydi sefydlog**
**1 (7%) Hyd o 50m, dyfnder o 30 rhwyll, arnofio**


| **Cwestiwn 20** | A wnaethoch gofnodi eich gweithgareddau rhwydo o’r lan (pryd, ble, dalfeydd) yn y cyfnod 2021–2024? Ydw/Nac ydw. |
|---|---|

**10 (72%)** Yr ymatebwr yn dweud **ei fod yn** cofnodi ei weithgareddau rhwydo o'r lan.
**4 (28%)** Yr ymatebwr yn dweud **nad yw'n** cofnodi ei weithgareddau rhwydo o'r lan.




| | |
|---|---|
| **Cwestiwn 21** | Os felly, a fyddech yn fodlon rhannu eich cofnodion â ni? Byddwn/Na fyddwn |

**5 (35%)** Yr ymatebwr yn dweud y **byddai'n** fodlon rhannu ei gofnodion pysgota â ni.
**9 (65%)** Yr ymatebwr yn dweud **na fyddai'n** fodlon rhannu ei gofnodion pysgota â ni.





| | |
|---|---|
| **Cwestiwn 22** | Yn y dyfodol, a fyddech yn fodlon rhannu data am ddychwelyd dalfeydd â ni yn wirfoddol mewn perthynas â gweithgareddau rhwydo o'r lan, h.y. drwy system recordio dalfeydd wirfoddol? Byddwn/Na fyddwn |

**14 (100%)** Yr ymatebwr yn dweud y **byddai'n** fodlon rhannu data dychwelyd dalfeydd â ni yn y dyfodol.
**0 (0%)** Yr ymatebwr yn dweud **na fyddai'n** fodlon rhannu data dychwelyd dalfeydd â ni yn y dyfodol.



| Cwestiwn 23 | A fyddech yn fodlon cymryd rhan mewn astudiaeth wyddonol ar sgil-ddalfeydd rhwydo o'r lan? Byddwn/Na fyddwn |
|---|---|

**14 (100%)** Yr ymatebwr yn dweud y **byddai'n** fodlon cymryd rhan mewn astudiaeth wyddonol ar sgil-ddalfeydd.
**0 (0%)** Yr ymatebwr yn dweud y **na fyddai'n** fodlon cymryd rhan mewn astudiaeth wyddonol ar sgil-ddalfeydd.




| Cwestiwn 24 | Ble a phryd rydych wedi gweld gweithgarwch rhwydo o'r lan yng Nghymru wrth bysgota neu fel arall yn y cyfnod 2021–2024 (byddwch mor benodol â phosibl)? |
|---|---|

Derbyniwyd yr ymatebion canlynol:

| | |
|---|---|
| **6 (42%)** | **Cefn Sidan** |
| **4 (28%)** | **Pen-bre** |
| **1 (7%)** | **Llanelli** |
| **1 (7%)** | **Hells Mouth** |
| **1 (7%)** | **Penllech** |
| **1 (7%)** | **Tywyn** |
| **1 (7%)** | **Porthor** |
| **1 (7%)** | **Aberdaron** |
| **1 (7%)** | **Porth Neigwl** |
| **1 (7%)** | **Nefyn** |
| **1 (7%)** | **Pwllheli** |
| **1 (7%)** | **Llanbedrog** |
| **1 (7%)** | **Ni welwyd rhwydo o'r lan mewn ardaloedd eraill** |
| **1 (7%)** | **Dim ymateb** |


| Cwestiwn 25 | Ar gyfer pob un o'r lleoliadau hyn a nodir yng nghwestiwn 24, beth yw'r nifer uchaf o bobl rydych wedi eu gweld yn pysgota â rhwyd o'r lan ar unrhyw un adeg? |
|---|---|

Y nifer uchaf o bobl a welwyd yn rhwydo o'r lan gan unigolyn ym mhob lleoliad ar un diwrnod oedd:

| | |
|---|---|
| **Cefn Sidan:** | 5 |
| **Pen-bre:** | 10 |
| **Llanelli:** | 10 |
| **Hells Mouth:** | 1 |
| **Penllech:** | 4 |
| **Tywyn:** | 4 |
| **Porthor:** | 4 |
| **Aberdaron:** | 4 |
| **Porth Neigwl:** | 4 |
| **Nefyn:** | 4 |
| **Pwllheli:** | 4 |
| **Llanbedrog:** | 4 |


| | |
|---|---|
| **Cwestiwn 26** | A ydych yn cydsynio i Is-adran Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru ddefnyddio eich manylion i gysylltu â chi am ragor o wybodaeth/trafodaethau am y mater hwn? Ydw/Nac ydw. |

**11** **(79%)** Yr ymatebwr yn dweud y **gallen ni** gysylltu yn y dyfodol.
**2** **(14%)** Yr ymatebwr yn dweud **na allen ni** gysylltu yn y dyfodol.
**1** **(7%)** Yr ymatebwr **heb roi ymateb** o ran cysylltu yn y dyfodol.




| | |
|---|---|
| **Cwestiwn 27** | Os nad ydych eisiau i'ch enw na'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi ticiwch yma. Byddwn wedyn yn eu cuddio cyn cyhoeddi. Ydw/Nac ydw |

**14 (100%)** Yr ymatebwr yn dweud **ei fod** am i'w wybodaeth gael ei chuddio cyn cyhoeddi.
**0 (0%)** Yr ymatebwr yn dweud **nad yw** am i'w wybodaeth gael ei chuddio cyn cyhoeddi.




**Y Camau Nesaf**

Mae'r data a gasglwyd drwy'r Alwad am Dystiolaeth yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar rwydo o'r lan yng Nghymru, gan wneud cyfraniad sylweddol at ein dealltwriaeth o'r gweithgarwch. Bydd y data hwn yn helpu i nodi patrymau, arferion a lleoliadau allweddol, gan ein galluogi i adeiladu darlun mwy cynhwysfawr o'r bysgodfa.

Bydd ein camau nesaf yn cynnwys asesiad manwl o'r data a gasglwyd gan yr Alwad am Dystiolaeth. Yn seiliedig ar y gefnogaeth gref a ddangoswyd gan ymatebwyr i gymryd rhan mewn system gofnodi dalfeydd gwirfoddol ac astudiaethau gwyddonol ar sgil-ddalfeydd a'r hyn sy'n cael ei daflu, byddwn hefyd yn ymgysylltu â Grŵp Cynghori Cymru ar Ddraenogiaid Môr i ystyried datblygu a gweithredu'r systemau hyn.

Bydd yr ymarferion casglu data ychwanegol tymor hwy hyn yn atgyfnerthu'r dystiolaeth ac yn llywio'r gwaith o ddatblygu polisi, a byddant yn helpu i nodi a oes angen mesurau ychwanegol i wella'r broses o reoleiddio rhwydo o'r lan yng Nghymru.